ELSA

Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol

Beth yw swydd yr ELSA?

Cynorthwywyr addysgu sy'n cynnal sesiynau ELSA, gyda chymorth a hyfforddiant gan seicolegydd addysg, i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion emosiynol yn yr ysgol.

Sut mae'r rhaglen yn gweithio?

Bydd sesiynau ELSA yn para 6 i 12 wythnos fel arfer. Yn ystod y sesiynau bydd disgyblion yn cael dysgu sgiliau a strategaethau i helpu ymdopi. Bydd targedau penodol yn cael eu gosod o'r cychwyn, targedau personol sy'n hawdd i'r disgybl deall a gweithredu.

Ddim yn addas i bawb

Nid yw ELSA yn addas i blant sydd ag anghenion hir dymor. Weithiau bydd angen cymorth gan arbenigwyr tu allan i'r ysgol i gefnogi anghenion dwys.

Yn yr un modd, nid rôl yr ELSA yw hi i ddatrys problemau ymddygiad pob dydd.

Peidiwch â phoeni

Mae'r sesiynau yn cael eu gweithredu mewn ystafell dawel ble mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus. Bydd unrhyw gwybodaeth personol gan y rhieni neu nodiadau gan yr ELSA yn gyfrinachol ac yn cael eu cadw mewn lle diogel yn yr ysgol. Mae'r ELSA yn cynllunio sesiynau o flaen llaw, er bydd syniadau'r plant yn cael eu hystyried hefyd. Dylai'r sesiynau fod yn hwyl i gael canlyniadau positif.

Themâu

Hunan-barch, rheoli emosiynau gan gynnwys gorbryder a dicter, sgiliau cymdeithasol a chyfeillgarwch, colled neu materion teuluol.

Cyfeiriadau:

elsanetwork.org, elsa-support.co.uk, tradingwithschools.org